**Sêr Symud: Canllaw ystafell ddosbarth**

Croeso i **Sêr Symud**, yr her teithio i'r ysgol newydd gan Living Streets.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio popeth sydd angen i chi ei wybod i gynnal yr her yn llwyddiannus gyda'ch dosbarth.

**Beth yw Sêr Symud?**

Mae Sêr Symud yn ysbrydoli disgyblion i deithio'n llesol ac yn gynaliadwy i'r ysgol drwy gystadleuaeth gyfeillgar a gwobrau llawn hwyl.

- Mae disgyblion yn cofnodi sut y gwnaethon nhw deithio i'r ysgol bob dydd ar blatfform Sêr Symud
- Caiff pwyntiau eu dyfarnu yn seiliedig ar ddull teithio a defnydd rheolaidd ohono
- Mae dosbarthiadau'n cystadlu i ennill y mwyaf o bwyntiau bob mis
- Mae disgyblion yn ennill cydnabyddiaeth unigol am gyfranogiad a gwelliant
- Mae yna gystadlaethau bob tymor hefyd rhwng ysgolion ar fyrddau arwain lleol a chenedlaethol.

**Pam mae teithio'n llesol i'r ysgol yn bwysig?**

Mae cerdded/troelli, beicio, sglefrio neu sgwtera i'r ysgol yn cefnogi iechyd corfforol eich disgyblion ac yn eu helpu i gyrraedd yr ysgol yn llawn egni ac yn barod i ddysgu a chanolbwyntio. Mae llai o geir o amgylch gatiau'r ysgol yn gwneud y strydoedd yn fwy diogel ac yn fwy dymunol i'r gymuned gyfan hefyd.

**Sut ydym ni'n cymryd rhan?**

- Mewngofnodwch i Sêr Symud gan ddefnyddio'ch cyfrinair tri gair: movemakers.org.uk
- Mae disgyblion yn dewis eu henw/eicon ac yn dewis eu dull teithio
- Os yw amser yn brin, defnyddiwch y modd swp (*batch mode*):
    - cymerwch arolwg llaw i fyny cyflym
    - cofnodwch deithiau'r dosbarth ar y cyd.

Awgrym: Beth am gynnwys cofnodi yn eich trefn foreol, fel bod disgyblion yn ei wneud yn gyson?

**Modd ymarfer**

Mae'r pum daith gyntaf sy'n cael eu cofnodi yn eich dosbarth yn y modd ymarfer. Mae hyn yn:

- helpu disgyblion i ddysgu sut i gofnodi
- creu sylfaen ar gyfer teithio’n llesol.

Unwaith y bydd eich dosbarth wedi cofnodi pum diwrnod o deithio, bydd eich modd ymarfer wedi'i gwblhau a bydd yr her yn dechrau!

**Annog eich dosbarth**

- Trafodwch fanteision teithio'n llesol i'r ysgol ar gyfer iechyd, yr amgylchedd a'r gymuned
- Defnyddiwch y cyflwyniad lansio i gael ysbrydoliaeth
- Atgoffwch y disgyblion fod *pob* taith sy'n cael ei chofnodi yn ennill pwyntiau
- Dathlwch gofnodi dyddiol a theithio'n llesol
- Adeiladwch gyffro o amgylch cystadleuaeth fisol Sêr Symud.

**Gwobrau misol**

Ar ddiwedd pob mis:

**Gwobrau dosbarth**

- Y dosbarth gyda'r *pwyntiau uchaf fesul disgybl* fydd enillwyr misol Sêr Symud. Maen nhw'n cael cadw masgot Strider am y mis nesaf.

**Gwobrau unigol**

- Sticeri ar gyfer pob disgybl a gofnododd y mis hwnnw
- Sticeri aur, arian, efydd ar gyfer y tri disgybl sy'n sgorio orau ym mhob dosbarth
- Gwobr *Seren Symud* i'r disgybl a wnaeth y gwelliant mwyaf ym mhob dosbarth.

Mae Sêr Symud yn cyfrifo'r rhain yn awtomatig.

Gallwch chi ddathlu cerrig milltir dosbarthiadau ac unigolion mewn unrhyw ffordd hwyliog sy'n addas i'ch ysgol: boed hynny'n wasanaeth i ddathlu, amser aur ychwanegol, rhoi marblen yn y jar gwobrau, neu unrhyw draddodiad hwyl arall y mae eich disgyblion yn ei fwynhau!

Beth am gadw dyddiadur o'r hyn y mae Strider yn ei wneud gyda'r dosbarth buddugol bob mis?